

PRIFFYRDD, CYMRU

LIC 21- 61

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN DIDDYMU HAWLIAU I GERBYDAU (Y STRYD FAWR, STRYD GRAHAM A SGWÂR Y FARCHNAD, MERTHYR TUDFUL) 2021

Gwnaed 7 Gorffennaf 2021

Yn dod i rym 16 Gorffennaf 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 249 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diddymu Hawliau i Gerbydau (Y Stryd Fawr, Stryd Graham a Sgwâr y Farchnad, Merthyr Tudful) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Gorffennaf 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "y plan a adnewyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Diddymu Hawliau i Gerbydau (Y Stryd Fawr, Stryd Graham a Sgwâr y Farchnad, Merthyr Tudful) 2021" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, mae unrhyw hawl tramwy a all fod gan unrhyw berson i ddefnyddio cerbydau ar y rhannau o briffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ag ymyl du ar y plan a adnewyd wedi ei ddiddymu pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

4. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd gael ei ddefnyddio ar y darnau o briffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

HIGHWAYS, WALES

WG 21- 61

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE EXTINGUISHMENT OF VEHICULAR RIGHTS (HIGH STREET, GRAHAM STREET & MARKET SQUARE, MERTHYR TYDFIL) ORDER 2021

Made 7 July 2021

Coming into force 16 July 2021

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 249 of the Town and Country Planning Act 1990(1).

Title and Commencement

1. The title of this Order is the Extinguishment of Vehicular Rights (High Street, Graham Street & Market Square, Merthyr Tydfil) Order 2021 and this Order comes into force on 16 July 2021.

Interpretation

2. In this Order—

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Council of the County Borough of Merthyr Tydfil;

"the deposited plan" ("*y plan a adnewyd*") means the plan entitled "The Extinguishment of Vehicular Rights (High Street, Graham Street & Market Square, Merthyr Tydfil) Order 2021" which accompanies this Order;

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

3. Except as provided in article 4 of this Order, any right of way which persons may have to use vehicles on the areas of highway described in the Schedule to this Order and shown edged black on the deposited plan is extinguished on the coming into force of this Order.

4. A person may cause or permit any vehicle to be used on the lengths of highway specified in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable—

(1) 1990 c. 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau o'r briffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(1).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Gorffennaf 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o briffordd y mae hawliau cerbydau i fynd arnynt i'w diddymu

1. Y darn o briffordd o'r enw Y Stryd Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Central Street i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â Heol yr Alarch am bellter o 160 o fetrau.
2. Y darn o briffordd o'r enw Stryd Graham sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Stryd Fawr i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei chyffordd â Sgwâr y Farchnad, pellter o 43 o fetrau.
3. Y darn o briffordd o'r enw Sgwâr y Farchnad sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd Graham i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â Central Street, pellter o 29 o fetrau.

(a) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(b) the vehicle to be used in connection with the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the highway of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(1).

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 7 July 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

(All measurements are approximate)

Description of the lengths of highway over which vehicular rights are to be extinguished

1. The length of highway known as High Street which extends from its junction with Central Street in a southerly direction to its junction with Swan Street for a distance of 160 metres.
2. The length of highway known as Graham Street which extends from its junction with High Street in a westerly direction to its junction with Market Square, a distance of 43 metres.
3. The length of highway known as Market Square which extends from its junction with Graham Street in a northerly direction to its junction with Central Street, a distance of 29 metres.

